CYNGOR BRO LLANLLWNI
Adroddiad o gyfarfod 10 Gorffennaf 2023

Cynhaliwyd y Cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys, Llanllwni.
Roedd y Clerc wedi rhoi copi o’r Agenda yn y Swyddfa Bost cyn y cyfarfod.
Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i’r cyfarfod.

Y CAE CHWARAE
Cadarnhawyd bod y maes chwarae a’r adnoddau wedi’u harchwilio’n fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf. Nid oedd damweiniau i’w cofnodi. Derbyniwyd ymateb gan glerc Cyngor Bro Llanybydder nad oedd y rampiau yn cael ei defnyddio yn briodol fel rheol.
Roedd y Clerc wedi derbyn cais am y canlynol ar y Cae Chwarae:

- Trac Beic.
- Parc sglefrio bach.
- Man chwarae i blant bach a mawr.
- Cae Pêl droed.

Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd na ellid cefnogi’r cais.

GWEFAN LLANLLWNI
Roedd Adroddiad o gyfarfod mis Mai 2023 wedi ei osod ar y wefan.

CLONC CLECS
Roedd Adroddiad o gyfarfod mis Mai wedi ei anfon.

DIFFIBRILYDDION
Cafwyd trafodaeth hir ynglŷn â’r diffibrilyddion: roedd angen sicrhau bod pob un ohonyn nhw’n gweithio. Penderfynwyd yn unfrydol y byddai’r Clerc yn cysylltu â pherson priodol sy’n gweithio i Ambiwlans Sant Ioan i drefnu ymweld â phob safle cyn y cyfarfod nesaf a bod y Cyng Eurig Thomas a’r Clerc yn ymweld â’r safleoedd. At hyn penderfynwyd y byddai’r Clerc yn ceisio trefnu hyfforddiant yn Festri Capel Nonni yn ystod Mis Medi.

SBWRIEL AR HEWL ABERCWM
Cafwyd cadarnhad gan y Clerc bod angen symud y biniau o’r safle er mwyn osgoi rhagor o sbwriel. Cafwyd cadarnhad gan y Clerc bod Cyngor Sir Caerfyrddin yn mynd i gasglu sbwriel yn y dyfodol o waelod hewl Abercwm gyferbyn â Ffynnon-ddrain.

PENDERFYNWYD CEFNOGI
Eisteddfod Gŵyl y Banc, Llanbedr Pont Steffan.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a’u brwdfrydedd dros y plwyf.

Bydd y cyfarfod nesaf yn Ysgol Eglwys Llanllwni nos Lun 11 Medi am 8yh.